


Cyfriflenni banc

Beth mae ei angen arnom gennych chi?

Mae angen i chi gynnwys tudalen o gyfriflen banc wedi'i dyddio o **fewn y tri mis** diwethaf sy'n dangos yr holl wybodaeth isod, fel y gallwn gadarnhau'ch gwybodaeth gyfrif os bydd eich cais yn llwyddiannus.



Enw'r Banc
Cyfeiriad y Banc
Cyfeiriad llinell 1
Cyfeiriad llinell 2
Côd post

6 Ebrill 2018 i 5 Mai 2018
Tudalen 1

Crynodeb o'r Cyfrif

Balans blaenorol	0.00
Tynnwyd allan	25,854.58
Talwyd i mewn	35,521.58
Balans newydd	

John Doe
Enw cyfreithiol y mudiad
Cyfeiriad llinell 1
Cyfeiriad llinell 2
Côd post

Rhif Cyfrif 12-00-21
Côd Didoli 1200214

Enw cyfreithiol y mudiad

BIC BNK 874323
IBAN 854751268412

- ✓ Dylai'r gyfriflen banc fod wedi'i dyddio o fewn **y tri mis diwethaf**.
- ✓ Mae'n rhaid cynnwys enw neu logo'r banc.
- ✓ Mae'n rhaid mai'r enw ar y gyfriflen banc yw **enw cyfreithiol eich mudiad**, ac mae'n rhaid iddo gyfateb i'r enw ar eich cais. Dylai'r gyfriflen gynnwys y cyfeiriad yr anfonir y cyfriflenni iddo.
- ✓ Mae angen i'r gyfriflen a anfonwch ddangos y rhif **cyfrif a'r côd didoli yn glir**.
Os yw un dudalen o'ch cyfriflen banc yn cynnwys yr holl wybodaeth uchod, anfonwch ddim ond y dudalen honno.

Os oes gennych gyfrif banc a agorwyd o fewn y tri mis diwethaf, gallwn dderbyn y llythyr croeso gan y banc yn lle cyfriflen banc. Mae'n rhaid i'r llythyr gadarnhau dyddiad agor y cyfrif a holl fanylion y cyfrif.

Cyfriflenni ar-lein

Gan nad yw cyfriflenni ar-lein yn aml yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom, dylai ymgeiswyr ofyn am gyfriflen lawn gan eu banc.

Cyfeiriad y mudiad yn wahanol i'r cyfeiriad ar y gyfriflen banc

Rydym yn disgwyl bod y cyfeiriad ar y gyfriflen yn cyfateb i'r mudiad, er hynny rydym yn cydnabod y gallai fod cyfiawnhad dros anfon datganiadau i gyfeiriad arall fel y trysorydd neu'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol.

Beth na allwn ei dderbyn;

- Rhestrau trafodion
- Cyfriflenni sydd ag enw'r mudiad wedi'i dalfyrru
- Cyfriflenni banc yn enw dau neu fwy o unigolion yn masnachu fel mudiad sydd ag enw